# Mewnosod coiliau nitinaidd endobronciaidd i wella gweithrediad yr ysgyfaint lle y bydd yr unigolyn yn dioddef o emffysema

25 Mawrth 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Nid oes tystiolaeth ddigonol er mwyn bod yn sicr ynglŷn â pha mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw. Am y rheswm hwn, dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y dylai'r driniaeth hon gael ei chyflawni.

Mae angen cynnal rhagor o ymchwil ar y driniaeth hon ac efallai y bydd NICE yn ailystyried y driniaeth os caiff rhagor o dystiolaeth ei chyhoeddi.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gall eich gweithiwr iechyd proffesiynol gynnig y driniaeth hon i chi. Cesglir manylion am eich triniaeth.

## Y cyflwr

Mae emffysema yn un o blith grŵp o glefydau a elwir yn glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (neu gan ddefnyddio'r talfyriad Saesneg, sef CODP). Mae'n gyflwr hirdymor ar yr ysgyfaint lle y mae'r sachau aer bach y tu mewn i'r ysgyfaint (a elwir yn alfeoli) wedi cael eu niweidio. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r person gael ddigon o ocsigen. Gall fod gan bobl ag emffysema beswch cronig a gallant fod yn fyr eu hanadl wrth wneud ymarfer corff neu hyd yn oed wrth orffwys. Gallant hefyd deimlo'n flinedig a gallant fod wedi colli pwysau.

Mae'r driniaeth ar gyfer emffysema yn cynnwys cyngor ynghylch rhoi'r gorau i ysmygu, ymarfer corff ac ailhyfforddi i anadlu, a meddyginiaeth. Weithiau gall ocsigen helpu. Efallai y bydd angen llawdriniaeth i leihau cyfaint yr ysgyfaint, neu drawsblaniad yr ysgyfaint, os bydd yr emffysema yn ddifrifol.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio triniaeth i fewnosod coiliau nitinaidd endobronciaidd i wella gweithrediad yr ysgyfaint lle y bydd yr unigolyn yn dioddef o emffysema fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

## Y driniaeth

Nod mewnosod coiliau nitinaidd endobronciaidd yw lleihau llif yr aer i'r rhannau o'r ysgyfaint sydd wedi'u niweidio. Drwy wneud hynny, gall aer lifo i rannau iachach yr ysgyfaint gan helpu'r unigolyn i gael digon o ocsigen.

Gellir mewnosod y coiliau pan fydd yr unigolyn wedi'i lonyddu neu o dan anestheteg cyffredinol. Nid oes angen unrhyw doriadau drwy'r frest na'r ysgyfaint. Gan ddefnyddio tiwb hyblyg â chamera ar y pen (broncosgop), bydd y meddyg yn mewnosod catheter (tiwb tenau) i mewn i'r ysgyfaint drwy'r broncosgop. Wedyn, caiff coil wedi'i sythu ei basio drwy'r catheter, cyn tynnu'r catheter allan.

Pan gaiff ei ryddhau, bydd y coil yn neidio i siâp penodedig, gan blygu meinwe afiach yr ysgyfaint a chaniatáu i aer gyrraedd y rhannau iachach. Yn nodweddiadol, caiff rhwng pump a 15 o goiliau eu mewnosod i bob rhan o'r ysgyfaint a gaiff ei thrin. Bwriedir i'r coiliau aros yn yr ysgyfaint yn barhaol.

## Manteision a risgiau

Roedd argymhellion NICE yn seiliedig ar y ffaith mai prin yw'r gwaith ymchwil a wnaed i'r broses o fewnosod y coiliau hyn. Roedd y saith astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 208 o gleifion.

Yn gyffredinol, roedd mewnosod coiliau nitinaidd endobronciaidd, yn ôl pob tebyg, yn gwella ansawdd bywyd pobl ychydig yn fwy na'r gofal arferol. Cafwyd rhywfaint o welliant hefyd o ran diffyg anadl ac o ran y gallu i wneud ymarfer corff.

Dangosodd yr astudiaethau, o fewn chwe mis o fewnosod y coiliau, fod y risgiau yn cynnwys y canlynol:

- poen yn y frest mewn 14% o'r triniaethau
- niwmonia mewn hyd at 11% o'r triniaethau
- gwaethygiad difrifol o ran clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint mewn 17% o'r triniaethau

- niwmothoracs (aer rhwng yr ysgyfaint a wal y frest) mewn 5% o'r triniaethau
- haint yn rhan isaf y llwybrau anadlu mewn hyd at 5% o'r triniaethau.

Dywedwyd wrth NICE am risgiau posibl eraill hefyd; gwaedu a haint.

Os hoffech wybod mwy am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth fydd y gwaith ymchwil yn ei gofnodi a pha mor hir y byddaf yn rhan o'r astudiaeth?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?

## Egluro termau meddygol

### Broncosgopi

Mae'r broses hon yn edrych y tu mewn i'r ysgyfaint ac yn eu trin drwy ddefnyddio offeryn a elwir yn froncosgop a gaiff ei osod fel arfer drwy'r geg neu'r trwyn.

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllaw ymyriadau NICE yn cynghori'r GIG ar ba mor ddiogel yw triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-1206-3